# Cafcass Cymru

# Gweithio o Bellym maes Cyfraith Breifat: Diweddariad ar gyfer Llysoedd

Gorffennaf 2020

# Ymateb Cafcass Cymru i Covid-19
# Gweithio o Bell ym maes Cyfraith Breifat: Diweddariad ar gyfer Llysoedd
**(Gorffennaf 2020)**

## 1. Rhaglen Trefniadau ar gyfer Plant yng Nghyfnod Covid-19 a Gweithio o Bell: Lle Yr Ydym Ni Arni

1.1 Un o egwyddorion allweddol Deddf Plant 1989 yw y bydd oedi yn y broses o wneud penderfyniadau'n debygol o niweidio lles plant sy'n destun achos llys. Mae Llywydd yr Is-adran Deulu wedi ei gwneud yn glir yn *The Road Ahead*[1] bod yr arfer o oedi achosion, am yr hyn y gobeithid y byddai'n gyfnod cymharol fyr, angen ei ail-werthuso o fewn amserlen hwy o lawer erbyn hyn.

1.2 Mae Cafcass Cymru wedi ymrwymo i osgoi oedi i blant pan fo hynny'n bosibl. Gan fod effaith y pandemig yn parhau i dreiddio trwy bob agwedd ar fywyd pawb sy'n byw yng Nghymru, sefyllfa ddiofyn Cafcass Cymru yw gweithio o bell, ac mae'n debygol y bydd cyfleoedd i gynnal gwaith wyneb yn wyneb â phlant, lle maent yn bodoli, yn parhau'n gyfyngedig am gryn amser. Hefyd, ni ellir diystyru'r posibilrwydd y bydd mwy o gyfyngiadau symud. Golyga hyn fod Cafcass Cymru wedi gorfod addasu a chanfod ffyrdd newydd a chreadigol o weithio gyda phlant a theuluoedd, i symud achosion ymlaen.

1.3 Mae *Canllawiau Dadansoddiad o Effaith ar Blant o Bell* Cafcass Cymru ar gyfer ymarferwyr yn canolbwyntio ar bwysigrwydd newid ein dull fel ein bod yn:

- Cynnal yr ymholiadau sy'n bosibl;
- Dadansoddi'r wybodaeth sydd ar gael;
- Nodi unrhyw fylchau yn ein hymholiadau;
- Cyflwyno adroddiadau amserol, i alluogi'r llysoedd i wneud penderfyniadau rheoli achosion ynghylch sut i ddatrys neu symud achos ymlaen.

> ***"Dylai plant gael eu cynnwys, i'r graddau sy'n briodol o ystyried eu hoedran a'u lefel o ddealltwriaeth, yn y broses o wneud trefniadau sy'n effeithio arnynt"***
>
> *(cyfieithiad o baragraff 4.4 Cyfarwyddyd Ymarfer 12b)*

1.4 Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg i ymgysylltu â phlant, i'w galluogi i fod yn rhan o'r achos a chael gwybodaeth amdano, i gyd-fynd â'u hoedran, datblygiad a'u lles gorau.

[1] https://www.judiciary.uk/announcements/the-family-court-and-covid-19-the-road-ahead/

1.5 Pan fo’n bosibl ac yn ddiogel yn emosiynol i blant, byddwn yn defnyddio dulliau o bell i ganfod eu dymuniadau a’u teimladau.

1.6 Ym mhob achos, byddwn yn ceisio cyflwyno ein hunain o bell ac egluro ein swyddogaeth.

1.7 Byddai’n rhaid bod rheswm eithriadol dros beidio ag ymgysylltu â phlant, sydd i bob pwrpas yn rhwystro’r plentyn rhag bod yn rhan o’r achos.

**Pwynt Ymarfer: Barn Plant**

- Mae plant a phobl ifanc yn dweud wrthym eu bod yn dymuno cyfle i fynegi barn a chael dealltwriaeth o’r broses. Cynigir cyfle i’r plant ymgysylltu â ni o bell, yn unol â’u lles gorau, oedran a lefel o ddealltwriaeth.
- Ni fyddwn yn tybio nad yw plentyn yn dymuno cael sgwrs gyda ni ynglŷn â phwy ydym ni, ein swyddogaeth a’r gwaith y byddwn yn ei wneud, hyd yn oed os byddwn yn ystyried na fydd hi’n bosibl gweithio’n uniongyrchol gyda nhw.
- Dylid nodi bod llawer o blant a phobl ifanc yn gwbl gartrefol yn defnyddio technoleg; mae rhai wedi dweud wrthym fod yn well ganddynt wneud hyn na chyfarfodydd wyneb yn wyneb, yn enwedig os oeddent yn bryderus ynghylch dod i’n swyddfeydd. Mae nifer o asiantaethau wedi adrodd am y dewis hwn ac fe’i hadlewyrchir hefyd mewn arolwg diweddar a gynhaliwyd gan Cafcass yn Lloegr.

## 2. Gweithio o Bell gyda Phlant

2.1 Paratowyd llythyrau â'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer partïon a phlant, sy'n egluro wrth rieni sut y byddwn yn ymgysylltu â'u plant a sut yr ydym yn disgwyl iddynt gefnogi eu plant. Darparwyd canllawiau manwl i ymarferwyr ynghylch defnyddio amrywiaeth o lwyfannau fideo ar gyfer gwaith uniongyrchol, gan gynnwys Skype for Business, Microsoft Teams, a FaceTime, ac i fod o gymorth wrth gynllunio cyfarfodydd o ansawdd da gyda phlant o bell. Efallai y bydd yn rhaid i ymarferwyr wneud sawl galwad ffôn a/neu fideo i blant er mwyn egluro eu swyddogaeth a chynyddu hyder y plentyn yn ddigonol fel y gallant siarad ar eu pen eu hunain, ac am eu dymuniadau a'u teimladau.

2.2 Mae ymarferwyr wedi canfod ffyrdd arloesol o ymgysylltu â phlant drwy ddefnyddio galwadau fideo. O ran strwythuro asesiadau, maent wedi canfod bod Rhestr Wirio Asesiad Lles Plant a'r Glasoed Cafcass Cymru (CC-CAWAC), taflenni gwaith Cafcass Cymru, gwneud darluniau, defnyddio ecofapiau ac offerynnau 'Three Houses'/ 'Three Planets' i gyd wedi gweithio'n dda. Mae gwaith yn mynd rhagddo i'w gwneud yn haws i blant gwblhau CC-CAWAC o bell, ac rydym yn parhau i archwilio dulliau eraill o weithio'n uniongyrchol o bell wrth i fwy o dechnoleg fod ar gael.

2.3 Bydd ymarferwyr yn ystyried fesul achos pa un a yw'n bosibl i ymgymryd â gwaith uniongyrchol gyda phlant. I rai plant gartref yng nghanol anghydfod cyfraith breifat chwerw, ac i blant sydd wedi bod yn agored i gam-drin domestig, gall teimlo y gallant siarad yn gyfrinachol fod yn heriol iawn. Mae'n bosibl y bydd ganddynt deimladau croes i'w gilydd neu deyrngarwch rhanedig. Mae'n bosibl y byddant yn ei chael yn anodd mynegi pryderon ynghylch eu diogelwch eu hunain neu ddiogelwch rhiant, neu'n poeni am roi gofid i riant neu'n poeni am sgil-effeithiau mynegi eu barn. Dylid nodi bod yr ystyriaethau hyn yn berthnasol i gyfarfodydd wyneb yn wyneb â phlant hefyd.

2.4 Os yw ymarferwyr yn ystyried y gallai archwilio dymuniadau a theimladau neu ymgymryd â gwaith uniongyrchol niweidio'r plentyn yn emosiynol, er enghraifft achosi iddyn nhw ail-fyw trawma, neu eu gadael yn ofidus ac yn methu â chael gafael ar gymorth, efallai y byddant yn cyfyngu ar eu gwaith ymgysylltu. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys galwad ffôn i gyflwyno eu hunain i'r plentyn, ac os yw'n briodol, galwad ffôn neu fideo ddilynol i egluro, mewn termau priodol i oedran, ymgysylltiad yr ymarferydd yn yr achos llys.

2.5 Os yw ymarferwyr yn ystyried y byddai ymgysylltu â phlentyn yn eu peryglu, neu os na allant wneud gwaith uniongyrchol oherwydd pryderon diogelwch neu ddiogelu, byddant yn cyfeirio at weithdrefnau diogelu Cafcass Cymru, gan gynnwys ystyried a oes angen atgyfeirio i'r Awdurdod Lleol.

2.6 Bydd ymarferwyr yn ei gwneud yn glir i'r plant mai cyfrifoldeb oedolion, h.y. eu rhieni neu'r llys, yw gwneud trefniadau diogel ar eu cyfer; nid eu cyfrifoldeb nhw yw hyn. Byddant yn sicrhau bod y plentyn yn deall bod ganddynt hawl i fynegi eu barn, ond nad ydynt yn gyfrifol am bennu trefniadau na thelerau Gorchmynion Llys.

2.7 Bydd ymarferwyr, yn eu Hadroddiad Dadansoddiad o Effaith ar Blentyn, yn nodi'n fanwl sut y maent wedi ymgysylltu â phlant. Bydd eu dadansoddiad o ddymuniadau a theimladau canfyddadwy y plentyn yn cynnwys pa mor ffyddiog ydynt ynglŷn ag i ba raddau y maent wedi cael darlun llawn o farn, dymuniadau a theimladau'r plentyn. Bydd ymarferwyr yn egluro unrhyw benderfyniad i beidio â gweithio'n uniongyrchol gyda'r plentyn, yn eu hadroddiad.

## 3. Gweithio o Bell gyda Phartïon

3.1 Mae'r *Canllawiau Dadansoddiad o Effaith ar Blant o Bell* yn pwysleisio manteision defnyddio dull datrys problemau yn y trafodaethau gyda rhieni, a phan fo'n ddiogel gwneud hynny, cyfeirio rhieni i wasanaethau datrys anghydfod eraill ar bob adeg addas yn ystod yr achos.

3.2 Bydd ymarferwyr yn gwrando'n astud ar bartïon er mwyn deall eu safbwyntiau, eu pryderon a'u hofnau ac unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch eu plant. Mewn achosion addas, gall ymarferwyr drefnu cyfarfodydd tair ffordd gyda phartïon, gan ddefnyddio cyfrwng fideo neu alwad ffôn gyfunol.

3.3 Cynghorir rhieni, yn ein llythyrau cyflwyno diwygiedig, i godi unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch y ffaith ein bod yn ymgysylltu â'u plentyn/plant o bell gydag ymarferydd Cafcass Cymru cyn gynted â phosibl, i sicrhau ein bod yn deall eu pryder ac yn gallu ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â hyn.

**Pwynt Ymarfer: Gweithio gyda Rhieni**

- Pan fo'n ddiogel gwneud hynny*, dylem ni geisio annog a chefnogi partïon i ddatrys problemau a bod yn gyfrifol am gytuno ar drefniadau realistig ar gyfer eu plentyn. Dylem ni weithio ochr yn ochr â rhieni, eu cynorthwyo i fyfyrio ar yr anghydfod a chael gwahanol safbwyntiau amdano, i ganolbwyntio ar deimladau a lles gorau eu plant.
- Ar yr un pryd mae angen i ni fod yn dryloyw gyda rhieni ynghylch unrhyw faterion risg y gallan nhw neu'r gwrthdaro rhyngddynt ei beri i'r plentyn. Os ystyriwn y gallai ymgais i weithio'n uniongyrchol gyda'r plentyn gael effaith negyddol, byddwn yn egluro pam ac yn archwilio gallu'r rhieni i ystyried ein pryderon ynghylch lles emosiynol eu plentyn.

*Nid yw'r dull gweithredu hwn yn berthnasol mewn achosion lle ceir hanes sylweddol o gam-drin domestig, neu risg o hynny, neu pan fo rheolaeth drwy orfodaeth yn ffactor.

## 4. Arsylwi Cyswllt

4.1 Mae'r pandemig coronafeirws yn ein herio i fod yn greadigol mewn achosion pryd y byddem o dan amgylchiadau arferol yn arsylwi cyswllt fel mater o drefn yn rhan o'n hymholiadau. Serch hynny, gall arsylwi cyswllt o bell ein helpu i asesu'r berthynas rhwng y plentyn a'r ddau riant.

4.2 Bydd ymarferwyr yn ceisio symud achosion ymlaen, yn hytrach na gofyn am estyniadau neu argymell adroddiadau atodol ag amserlen amhendant, yn y gobaith o geisio arsylwi cyswllt yn yr un ystafell yn ddiweddarach.

Er mwyn i'r Llys a phartïon allu penderfynu ar ffordd o symud yr achos ymlaen, efallai y bydd angen i ymarferwyr gyflwyno adroddiadau yn argymell pa un a ddylai cyswllt ddigwydd mewn egwyddor, *heb* arsylwi cyswllt, ar sail ffactorau yn cynnwys:

- Natur y peryglon o niwed sy'n amlwg neu'n cael eu hamau yn yr achos
- Hanes cyswllt ac unrhyw achosion blaenorol
- Dymuniadau a theimladau'r plentyn
- Pa un a oes gwrthwynebiad cyfiawn i gyswllt gan y plentyn
- Unrhyw wrthwynebiad neu rwystrau o ran y rhieni
- Gallu'r rhieni i gefnogi cyswllt
- Pa un a oes aelod o'r teulu a all oruchwylio neu gefnogi cyswllt un ai dros dro neu yn y tymor hwy.

4.3 Mae Cyswllt dan Oruchwyliaeth trwy ddull o bell (cyfrwng fideo) ar gael erbyn hyn ar gyfer achosion addas, a gall Cafcass Cymru ariannu hyd at chwe awr o gyswllt dan oruchwyliaeth o bell wedi ei ariannu, ar yr amod bod darparwr y cyswllt yn derbyn yr atgyfeiriad.

## 5. Adroddiadau Dadansoddiad o Effaith ar Blant

5.1 Bydd ymarferwyr yn gwneud pob ymdrech i roi argymhellion i'r Llys ynghylch sut y gellir symud yr achos ymlaen.

5.2 Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'r wybodaeth yr ydym yn llwyddo i'w chael, gan gynnwys gwybodaeth gan drydydd partïon perthnasol, a geir trwy ystyried achosion blaenorol a dadansoddi gwybodaeth ddiogelu, er mwyn hwyluso penderfyniadau cadarn gan y llysoedd.

5.3 Byddwn yn ystyried trefniadau graddedig sy'n galluogi achosion i symud ymlaen, a pha un a ellir symud achosion ymlaen trwy ddefnyddio gorchmynion dros dro, gyda gwrandawiad adolygu i ddilyn.

5.4 Byddwn yn osgoi argymell adroddiadau atodol neu ofyn am estyniadau a allai arwain at oedi penderfyniadau ynghylch y plentyn, neu o bosib, waethygu anghydfod y rhieni.

**Pwynt Ymarfer: Adroddiad Y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar Niwed**

- Mae Cafcass Cymru yn derbyn canfyddiadau adroddiad Y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar Niwed a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020, gan gydnabod bod gennym fwy o waith i'w wneud i wella a datblygu'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda'r rhai hynny sydd wedi cael profiad o gam-drin domestig
- Negeseuon allweddol ar gyfer ymarfer yw bod yn rhaid i ni:
  - Wrando'n ofalus ar blant sydd wedi cael profiad o gam-drin domestig, gan sicrhau nad ydym yn trechu nac yn "tawelu" eu lleisiau os byddant yn dweud wrthym nad ydynt yn dymuno cyswllt.
  - Bod yn effro i'r posibilrwydd y caiff difrifoldeb cam-drin domestig ei leihau'n systematig gan broses y llys, drwy gael ei ystyried yn wrthdaro sylweddol o'r ddwy ochr.
  - Sicrhau bod gennym ymateb wedi'i lywio gan drawma ar gyfer plant ac oedolion sydd wedi goroesi cam-drin domestig.
  - Bod yn ymwybodol os caiff profiadau o gam-drin eu diystyru yn yr achos, y gall hyn achosi i rieni amddiffynnol ymddangos fel rhai anghyfeillgar, neu fel rhai sy'n arddangos ymddygiad gelyniaethus.